

CYNGOR CYMDEITHAS BOTWNNOG

Adroddiad o gyfarfod o'r Cyngor a gynhaliwyd **Nos Lun, 13eg Mehefin, 2022**, yng Nghanolfan Bryncroes o 7.30 p.m. hyd 8.20 p.m.

Presennol: Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Elin Hughes, Dylan Parry Jones, Glyn Roberts, Glenys Williams, Iwan J. Williams, Siôn Williams

Ymddiheuriadau: Y Cyngorwyr Michael Strain, Carys E. Williams a'r Cyngorydd Gareth Williams (Y Cyngorydd Sir)

15. **CROESO**

Croesawodd y Cadeirydd am y flwyddyn 2021/22, Y Cyngorydd Dylan Parry Jones, yr aelodau i'r cyfarfod a dywedodd ei fod yn dda ganddo fod Y Cyngorwyr Carys H. Evans (Ward Botwnnog) a Siôn Williams (Ward Bryncroes) wedi ail-ymuno â'r Cyngor. Estynodd groeso cynnes hefyd i'r Cyngorydd Iwan J. Williams (Ward Bryncroes) a dymunodd yn dda iddo yntau fel aelod o'r Cyngor.

Cyn i drafodaethau ar faterion y Cyngor gychwyn adroddodd Cadeirydd y flwyddyn 2021/22, fod angen i'r tri aelod a enwir uchod arwyddo ei fod hi/fo yn derbyn y swydd o fod yn Gyngorydd fel a ganlyn ac hefyd ddatgan eu bod am barchu'r Côt Ymddygiad.

Er gwybodaeth dyma aelodau'r Cyngor am 2021/22:

Ward Bryncroes –	Y Cyngorydd Dylan Parry Jones Y Cyngorydd William Michael Strain Y Cyngorydd Iwan James Williams Un sedd wag (gweler cofnod 25 – cyfethol Efan Thomas)
Ward Sarn Mellteyrn	Y Cyngorydd Elin Hughes Y Cyngorydd Carys Eilwen Williams Y Cyngor Siôn Williams
Ward Botwnnog	Y Cyngorydd Carys H. Evans Y Cyngorydd Glyn Roberts Y Cyngorydd Glenys Williams Un sedd wag (gweler cofnod 25 – cyfethol Gwenan Griffiths)

16. **ETHOL CADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2022/23 (Ward Botwnnog)**

Penderfynwyd ethol Y Cyngorydd Glyn Roberts (aelod dros Ward Botwnnog) yn Gadeirydd am y flwyddyn 2022/23. Cadeiriwyd y trafodaethau i ddilyn gan Y Cyngorydd Glyn Roberts.

Wrth gymryd y gadeiryddiaeth, diolchodd Y Cyngorydd Glyn Roberts am y fraint o gael bod yn Gadeirydd y Cyngor unwaith yn rhagor a mynegodd werthfawrogiad yr aelodau i'r Cyngorydd Dylan Parry Jones am y ffordd y bu iddo lywio'r gweithgareddau yn drefnus a llwydiannus yn ystod y flwyddyn a aeth heibio.

17. **ETHOL IS-GADEIRYDD AM Y FLWYDDYN 2022/23 (Ward Sarn Mellteyrn)**

Penderfynwyd ethol Y Cyngorydd Siôn Williams, (aelod dros Ward Sarn Mellteyrn) yn Is-Gadeirydd am y flwyddyn 2022/23. Diolchodd Y Cyngorydd Williams am yr anrhydedd.

18. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiad.

19.

CADARNHAU COFNODION:

(a) Y CYNGOR A GYNHALIWIYD 10fed MAI, 2022

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion y Cyngor a gynhaliwyd 10fed Mai, 2022. (Cynigwyd gan Y Cyngorydd Glenys Williams ac eilwyd gan Y Cyngorydd Dylan Parry Jones gyda phawb yn cytuno).

(1) Eitem 10 – Materion yn codi o'r Cyfarfod Blynyddol a gynhaliwyd yn gynharach ar y noson

(a) Adroddiad Y Cyngorydd Gareth Williams – aelod dros Fotwnnog ('nawr Pen Draw Llyn) ar Gyngor Gwynedd)

(b) Cynrychiolydd ar Fwrdd Llywodraethol Ysgol Pont-y-Gôf

Penderfynwyd gohirio'r ddwy eitem uchod hyd gyfarfod mis Gorffennaf.

(c) Cynrychiolwyr i wasanaethu ar:

Is-bwyllgor y Fynwent: Y Cyngorwyr Dylan Parry Jones, Glyn Roberts ynghyd â Chadeirydd y flwyddyn yn rhinwedd ei swydd. Noder hefyd 'roedd Carys H. Evans ag Ifor Owen yn aelodau o'r Is-bwyllgor.

Un Llais Cymru – Y Cyngorydd Elin Hughes a Carys H. Evans.

Nodir uchod y cynrychiolwyr presennol.

Penderfynwyd ethol y rhai a ganlyn:

Is-bwyllgor Y Fynwent

Y Cyngorwyr Carys H. Evans, Dylan Parry Jones, Siôn Williams ynghyd a Chadeirydd y flwyddyn yn rhinwedd ei swydd.

Un Llais Cymru

Y Cyngorydd Carys H. Evans a'r ail aelod i'w ddewis yng nghyfarfod nesaf o'r Cyngor.

(2) Eitem 10 – Materion Ffyrdd a Llwybrau

Cyflwynwyd ymateb y Peiriannydd Rhanbarthol i gwynion anfonwyd i'w sylw:

(i) "Ffordd Tyddyn Hen, Botwnnog

Mae'r ffordd yma wedi'i harchwilio a bydd y gwaith o atgyweirio'r tyllau yn cael sylw pan fydd adnoddau ar gael.

ii) "Ail-wynebu Lôn Graig Fael am Graig Ewig, Bryncroes

Mae'r Uwch Beiriannydd yn disgwyl cadarnhad gan y cwmni o'r dyddiad pryd y byddent yn ymgymryd â'r gwaith. Fe wnawn eich hysbysu cyn gynted ag y cawn yr wybodaeth yma"

Penderfynwyd derbyn y wybodaeth.

(b) CYFARFOD ARBENNIG O'R CYNGOR A GYNHALIWIYD 6ed MEHEFIN, 2022

Cyflwynwyd, cadarnhawyd ac arwyddwyd cofnodion cyfarfod arbennig o'r Cyngor a gynhaliwyd 6ed Mehefin, 2022.

(Cynigiwyd gan Y Cyngorydd Dylan Parry Jones ac eilwyd gan Y Cyngorydd Glenys Williams).

20.

CEISIADAU CYNLLUNIO

Ni dderbyniwyd unrhyw gais i'w ystyried.

21. **MATERION FFYRDD A LLWYBRAU**

Penderfynwyd gofyn i'r Adran Priffyrdd farbio'r ffordd o Sarn Mellteyrn am Beudy Bigyn gan fod y tyfiant yn disgyn i'r ffordd ac yn beryglus i'r defnyddwyr.

Yn y cyswilt hwn gofynnodd y Cynghorydd Gareth Williams, Y Cynghorydd Sir, am i'r wybodaeth a ganlyn gael eu cyflwyno i'r Cyngor:

(a) Cyfyngiad cyflymder ym Mhenygroeslon

Isod dyfynnir o e-bost dderbyniodd y Cynghorydd Williams oddi wrth Iwan apTrefor, Rheolwr Traffig a Phrojectau, Cyngor Gwynedd:

“Cyfeiriaf at eich ymholiad parthed i gais i ymestyn y cyfyngiad cyflymder yn ardal Penygroeslon.

Hoffwn eich hysbysu bod swyddog o'r gwasanaeth hwn wedi bod allan i adolygu'r arwyddion 40mya presennol yn Penygroeslon. Yn dilyn yr ymweliad, rydym wedi trefnu i osod fwy o arwyddion ailadrodd o fewn y cyfyngiad 40mya presennol.

Er bod symud yr arwydd 40mya yn swnio syml, yn anffodus does gan y Cyngor ddim yr hawl i wneud hynny heb gyfarwyddyd cyfreithiol. Mae'r broses ganlynol yn un hir wyntog iawn. Mae rhaid cofio bod y cyngor wedi ceisio ymestyn y gwaharddiadau rhai blynyddoedd yn ôl. Yn ystod y broses ymgynghori ar yr adeg, derbyniwyd gwrthwynebiad gan y Cyngor Cymuned Aberdaron i ymestyn y cyfyngiad ac felly penderfynwyd peidio ei newid ar yr adeg.

Fel y gwyddoch, nid yw'r gwasanaeth hwn yn rhoi ystyried i newid cyfyngiadau cyflymder tu allan i ardaloedd trefol/pentrefol ar hyn o bryd. Yn ystod y flwyddyn yma, mi fydd y gwasanaeth hwn yn blaenoriaethu newid cyfyngiadau 30mph mewn ardaloedd trefol/pentrefol, sydd wedi eu goleuo, i 20mph fel rhan o strategaeth ehangach Llywodraeth Cymru.

Rydym yn disgwyl i'r cynllun canlynol cael ei wireddu yn 2023, yn dilyn hynny, byddwn yn rhoi blaenoriaeth i adolygu cyfyngiadau cyflymder y tu allan i'r ardaloedd trefol/pentrefol, wrth gwrs mi fydd ymestyn y cyfyngiad yn Penygroeslon yn derbyn sylw pryd hynny.

Os hoffech drafod y mater ymhellach mae croeso i chwi cysylltu un ôl a mi.”

(b) Pryd mae'r tymor barbio i ddechrau?

Ymateb gan Mr. Caradog Williams o'r Adran Priffyrdd ynglyn a phryd y bydd cloddiau'r ardal yn cael eu barbio – mae'r contractwyr wedi cael eu dal yn ôl mewn sir arall ac ni fyddant yn yr ardal yma cyn diwedd y mis (mis Mehefin). Am 'nawr mae criw o'r Adran Priffyrdd yn mynd o gwmpas gyda 'strimmers' yn torri cyffyrdd perygl (Pedair Croeslon yn un ohonynt) hyd nes bydd y contractwyr wedi cyrraedd.

Gofynnodd Y Cynghorydd Williams a oedd y Cyngor yn bryderus am unrhyw gyffordd oedd yn beryglu. Byddai'n barod iawn i anfon cais am ei thorri ymlaen i'r Adran Priffyrdd.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth a dderbyniwyd.

22. **AWDURDOD I DALU**

Penderfynwyd awdurdodi'r taliadau a ganlyn:

Y Clarc £372.75 (siec 200755)

HMRC £ 93.00 (siec 200757)

Siec 200756 wedi chanslo.

Ymhellach caniatwyd i'r Clarc arwyddo'r taliad uchod o £372.75 gyda'r Cynghorydd Glenys Williams er fod y taliad wedi ei wneud iddi hi ei hun.

Yn y cyswilt hwn, adroddodd y Clarc fod angen penodi aelod(au) i arwyddo mandad y banc gan nad oedd David Brunelli nag Ifor Owen yn aelodau o'r Cyngor bellach. (Nodyn – y rhai sydd eisoes ar y fandad yw'r Cynghorydd Glenys Williams a'r Clarc).

Penderfynwyd ychwanegu enwau'r Cyngorwyr Carys H. Evans a Glyn Roberts at y ddau enw sydd eisoes ar y fardad).

23. **ARCHWILIO'R CYFROFN AM Y FLWYDDYN 2021/22**

Adroddodd y Clarc fod yr Archwiliwr Mewnol wedi cwblhau ei waith archwilio am y flwyddyn 2021/22 – copi wedi ei anfon i bob aelod gyda'r rhaglen.

Penderfynwyd

- a) Derbyn y ffurflen flynyddol fel y'i cyflwynwyd a nodi fod y cwestiynau 1-8 ar y Datganiad Llywodraethu Blynyddol (Rhan 1) wedi eu hateb yn 'Do' a chwestiwn rhif 9 yn 'amh'.
- b) Derbyn y wybodaeth a nodwyd ar dudalen 4 'Datganiad Llywodraethu Blynyddol.'
- c) Awdurdodi'r Cadeirydd i arwyddo'r ffurflen ar ran y Cyngor fel cofnod cywir o'r cyfrifon.
- ch) Rhoddi rhybuddion i fyny yn yr etholaeth o hawliau etholwyr ac hefyd ar wefan y Cyngor.
- d) Anfon y ffurflen flynyddol ymlaen i Archwilio Cymru.

24. **MYNWENT LLANDEGWNNIG**

Cyflwynwyd adroddiad fod grant o £367.50 wedi ei dderbyn gan AHNE Llyn tuag at osod giat newydd ym mynwent Llandegwning. Nodwyd yn y telerau:

- (a) Y dylid rhoi cydnabyddiaeth i gyfraniad y Gronfa ar bob cyfle;
- (b) Rhaid cwblhau'r prosiect a hawlio grant y flwyddyn gyntaf cyn Dydd Gwener, Medi 2ail, 2022
- (c) Rhaid darparu prawf o'r holl wariant pan yn gwneud hawliad.

Yn y cyswllt hwn, diolchwyd i'r Cyngorydd Elin Hughes am ei chymorth i gwblhau'r cais.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

25. **CYFETHOL AELODAU**

Yn dilyn rhoddi hysbysebion yn gwahodd aelodau i wasanaethu ar y Cyngor derbyniwyd dau gais:

Gwenan Griffiths, Trefollwyn Bach, Botwnnog (dros Ward Botwnnog)

Efan Thomas, Terfyn, Bryncroes (dros Ward Bryncroes)

Penderfynwyd cyfethol y ddau ymgeisydd a'u gwahodd i gyfarfod Gorffennaf o'r

Cyngor pryd y bydd gofyn iddynt arwyddo i dderbyn y swydd ac hefyd i ddatgan eu bod am barchu'r Côt Ymddygiad.

26. **RECRIWTIO I FWRDD CYFOETH NATURIOL CYMRU**

Cyflwynwyd e-bost gan Syr David Henshaw yn rhoddi gwybodaeth eu bod yn y broses o recriwtio aelodau i wasanaethu ar Fwrdd Cyfoeth Naturiol Cymru.

Dywedodd y Clarc os oedd unrhyw aelod a diddordeb byddai'n gallu anfon y wybodaeth ymlaen iddo/i.

Penderfynwyd nodi'r wybodaeth.

27. **DATHLU**

Yn dilyn i fyny o'r Cyngor arbennig a gynhaliwyd ar 6ed Mehefin, 2022, ystyriwyd ymhellach beth a ellid ei wneud i ddathlu'r llwyddiant fod Cymru drwodd I Gwpan y Byd eleni. Ystyriwyd plannau blodau i harddu'r pentrefi a.y.

Penderfynwyd holi prisiau tybiau dal blodau a.y. ac ystyried yn y cyfarfod nesaf wneud cais i ANHE Llyn am grant tuag at y prosiect, gofyn i Glwb Ffermwyr Ifanc Rhiw i gynorthwyo a.y.

28. **EISTEDDFOD GENEDLAETHOL LLYN AC EIFIONYDD**

Cyflwynwyd llythyr Elen Elis, Trefnydd a Phennaeth Artistig yr Eisteddfod, yn gwahodd y Cyngor i ethol dau gynchiolydd i ymuno yn yr Orymdaith Ddinesig ar gyfer Seremoni Cyhoeddi Eisteddfod Genedlaethol Llyn ac Eifionydd 2023 ar Ddydd Sadwrn, 25ain Mehefin, 2022.

Penderfynwyd diolch am y gwahoddiad ond teimlid fod Cyngor Botwnnog yn cael ei gynrychioli'n barod gan fod Y Cyngorydd Michael Strain yno fel Cadeirydd y Pwyllgor Gwaith ac hefyd Y Cyngorydd Carys H. Evans fel stiward ar y diwrnod.

29. **CALENDR AM Y FLWYDDYN 2022/23**

Dyma'r calendr cyfarfodydd am y flwyddyn 2022/23

2022

13eg Mehefin	Canolfan Bryncroes
11eg Gorffennaf	Neuadd Goffa Sarn
12fed Medi	Festri Hebron
10fed Hydref	Festri Rhydbach
14eg Tachwedd	Canolfan Bryncroes
12fed Rhagfyr	Neuadd Goffa Sarn

2023

9fed Ionawr	Festri Hebron
13eg Chwefror	Festri Rhydbach
13eg Mawrth	Canolfan Bryncroes
3ydd Ebrill	Neuadd Goffa Sarn
(Noder wythnos ynghynt oherwydd y Pasg)	
8fed Mai	Festri Hebron
12fed Mehefin	Festri Rhydbach

30. **MANYLION DATA**

Gofynnodd y Clarc i'r aelodau lenwi ffurflen yn rhoddi caniatad iddi roi gwybodaeth am eu cyfeiriad, teleffon, ac e-bost ar wefan y Cyngor hyn yn unol a'r Ddeddf Diogelu Data.